


# Nadolig 2023 yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd

**amgueddfa.cymru**
museum.wales

# EICH NADOLIG
# EICH STORI
# EICH AMGUEDDFA

Beth am gynnal eich parti Nadolig yn lleoliad mwyaf hanesyddol Caerdydd?

Yng nghanol y ddinas, mae Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, gyda'i Neuadd Fawr eiconig, ei nenfydau uchel godidog a'i grisiau marmor ysblennydd, yn barod i'ch croesawu chi a'ch gwesteion y Nadolig hwn.

Gyda lle i hyd at 270 ar gyfer swper a dawns neu 320 ar gyfer swper ffurfiol, bydd gennych chi a'ch gwesteion ddefnydd neilltuedig o'r gofod a byddwch yn treulio'r noson wedi'ch amgylchynu â champweithiau pwysig.

Mae ein harlwywyr arobryn yn cynnig dewis o fwydlenni swper tri neu bedwar cwrs blasus ar eich cyfer gyda gwasanaeth o'r radd flaenaf.

Dewiswch un o'r ddau gynnig Nadolig gogoneddus, y Pecyn Arian Cymreig, neu'r pecyn Aur Cymreig.

Er mwyn gosod naws arbennig i'r noson, gallwch ddewis i gael diod croeso wedi'i weini yn ein horielau syfrdanol, lle y byddwch wedi'ch amgylchynu ag un o'r casgliadau gorau o gelf argraffiadol yn Ewrop, gan gynnwys gweithiau eiconig gan Renoir, Cézanne a Monet

Bydd ein tîm arbenigol yn gofalu am yr holl drefniadau, o'r addurniadau Nadoligaidd i'r DJ ar gyfer diwedd y noson. Cysylltwch nawr a threuliwch eich Nadolig yn eich amgueddfa.



# Y Pecyn Nadolig Arian Cymreig

Defnydd neilltuedig o'r Neuadd Fawr o 7.30pm tan hanner nos gyda swper ffurfiol tri chwrs.

£71.95 y pen + TAW (Mae'r pris hwn yn seiliedig ar leiafswm o 150 o westeion.)

Uwchraddiwch i gynnwys diod croeso yn yr Orielau o £18.50 y pen + TAW

Uwchraddiwch i gynnwys DJ o £300 + TAW

## Bwydlen Nadolig Aur Cymreig

### Cwrs cyntaf

Dewiswch un o'r canlynol:

- Terîn Madarch Gwyllt a Chyw Iâr, Compot Llugaeron, Crouton Rocet a Balsamig
- Madarch Tarragon Garlleg, Bara Surdoes, Creision Sibols (fegan)

### Prif gwrs

Dewiswch un o'r canlynol:

- Ballantîn Twrci wedi'i Rostio'n Araf gyda Rhosmari a Saets, Tatws Garlleg wedi'u Rhostio, Bresych Coch wedi'u Brwysio â Gwin Coch, Pannas a Moron wedi'u Rhostio â Mêl, Selsig Bach wedi'u Lapio â Chig Moch, Jus Twrci Cyfoethog.
- Pithivier Rhost y Gaeaf, Tatws Garlleg wedi'u Rhostio, Bresych Coch wedi'u Brwysio â Gwin Coch, Pannas a Moron wedi'u Rhostio â sudd Masarn, Selsig Quorn, Jus â Pherlysiau (fegan, di-glwten)

### Pwdinau

Dewiswch un o'r canlynol:

- Tarten Siocled a Cheirios, Hufen Iâ Fanila, Compot Gwin Cynnes (fegan, di-glwten)
- Pannacotta Mafon a Siocled Gwyn, Tro Siocled

### I orffen

Bwrdd Caws Cymreig, Craceri Artisan a Siytni Welsh Lady.

Petit Fours a Choffi.



# Y Pecyn Nadolig Arian Cymreig

Defnydd neilltuedig o'r Neuadd Fawr o 7.30pm tan hanner nos gyda swper ffurfiol tri chwrs.

£65.95 y pen + TAW (Mae'r pris hwn yn seiliedig ar leiafswm o 150 o westeion.)

Uwchraddiwch i gynnwys diod croeso yn yr Orielau o £18.50 y pen + TAW

Uwchraddiwch i gynnwys DJ o £300 + TAW

## Bwydlen Nadolig Arian Cymreig

### Cwrs cyntaf

Dewiswch un o'r canlynol:

- Tarten caws Caerffili, Cennin a Chlementin, Salad Sitrws a Phupur Du (llysieuol)
- Parfait Llugaeron Ysgewyll, Grawnffrwyth Pinc, Crouton Rocet a Balsamig
- Parfait Caws Meddal Llysiau'r Gaeaf, Diferion Llugaeron a Chrouton Balsamig (llysieuol)

### Prif gwrs

Dewiswch un o'r canlynol:

- Brest Twrci wedi'i Rhostio'n Araf, Tatws Rhosmari a Theim wedi'u Rhostio, Bresych Coch wedi'u Brwysio ag Afal, Moron ac Ysgewyll wedi'u Rhostio, Selsig Bach wedi'u Lapio â Chig Moch, Jus Twrci Cyfoethog.
- Bol Mochyn â chrwst Sbeis Cymysg, Stwnsh Pupur, Bresych Coch wedi'u Brwysio ag Afal, Moron ac Ysgewyll wedi'u Rhostio, Jus Cyfoethog.
- Rhost Corbys Llugaeron a Llysiau, Tatws Rhosmari a Theim wedi'u Rhostio, Bresych Coch wedi'u Brwysio ag Afal, Moron ac Ysgewyll wedi'u Rhostio, Selsig Quorn, Jus â Pherlysiau (fegan, di-glwten).
- Rhost Cnau, Tatws Rhosmari a Theim wedi'u Rhostio, Bresych Coch wedi'u Brwysio ag Afal, Moron ac Ysgewyll wedi'u Rhostio, Jus â Pherlysiau (fegan, di-glwten, heb gynnyrch llaeth).

### Pwdinau

Dewiswch un o'r canlynol:

- Cacen Gaws Fanila, Compot Aeron Gwin Cynnes (fegan, di-glwten)
- Delice Browni Siocled, Hufen Tolch, Aeron Gaeaf
- Pwdin Nadolig, Saws Brandi Cartref




Casgliad o saith amgueddfa genedlaethol a chanolfan gasgliadau yw Amgueddfa Cymru sydd wedi'u lleoli ar hyd a lled y wlad.

Cysylltwch â ni neu cymerwch gipolwg ar ein gwefan er mwyn darganfod mwy am ein portffolio o eiddo heb ei hail, o dai cyfnod wedi'u dodrefnu i gyfleusterau cynadledda a digwyddiadau modern, unigryw.

Mae pecynnau Nadolig hefyd ar gael yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau.








1. **Amgueddfa Lechi Cymru** National Slate Museum
2. **Amgueddfa Wlân Cymru** National Wool Museum
3. **Amgueddfa Genedlaethol y Glannau** National Waterfront Museum
4. **Y Ganolfan Gasgliadau Genedlaethol** National Collections Centre
5. **Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru** St Fagans National Museum of History
6. **Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd** National Museum Cardiff
7. **Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru** National Roman Legion Museum
8. **Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru** Big Pit National Coal Museum

## Cyswllt

Am fwy o wybodaeth, i drefnu ymweliad safle ac i archebu, cysylltwch dros e-bost â **llogi@amgueddfa.cymru.ac.uk** neu ffoniwch 02920 57 33 22. Cymerwch gip olwg ar ein gwefan **amgueddfa.cymru/llogi**

## Cefnogwch ni

Elusen yw **Amgueddfa Cymru** sy'n gasgliad o saith amgueddfa genedlaethol a chanolfan gasgliadau, wedi'u lleoli ar hyd a lled y wlad. Bydd pob digwyddiad rydych yn ei gynnal yn ein helpu i sicrhau bod Amgueddfa Cymru yn perthyn i bawb ac ar gael i bawb ei defnyddio. Ein nod yw ysbrydoli pawb drwy adrodd stori Cymru yn ein hamgueddfeydd, ein cymunedau ac yn ddigidol.

Rhif elusen gofrestredig 525774

**amgueddfa.cymru**
museum.wales

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**